

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Morris, Ysbyty Maelor  
Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 12 a 13 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83577-313-0

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	17
4.	Y camau nesaf .....	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 12 a 13 Medi 2023. Adolygwyd y ward ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Morris - 27 o welyau sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn a gofal clefyd Parkinson.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda ar y cyfan. Mynegodd y mwyafrif o'r cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff, yn gyffredinol, yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Fodd bynnag, dywedodd dau glaf a'u perthnasau wrthym nad oeddent bob amser yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ar gynllunio gofal a threfniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac nad oedd gofal yn cael ei ddarparu mewn modd sensitif ac amserol bob amser. Dywedodd un claf wrthym nad oedd bob amser yn cael ei drin ag urddas a pharch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn gyson ac yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir a bod dogfennaeth ategol, megis siartiau cymeriant dietegol a hylif a chofnodion gofal cathetr, yn cael eu cynnal yn gywir
- Cynnwys aelodau o'r teulu wrth gynllunio a darparu gofal
- Sicrhau bod y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch bob amser
- Sicrhau bod y staff yn ymateb i'r cleifion mewn modd amserol
- Darparu lolfa neu ystafell dawel ar y ward er mwyn i'r cleifion a'u perthnasau eu defnyddio
- Adolygu'r ddarpariaeth o gyfleusterau ystafell ymolchi ar y ward
- Parhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhyngweithio da ymysg y staff
- Darparu bwyd
- Yr amgylchedd a'r glendid yn gyffredinol.

### Darparu gofal diogel ac effeithiol

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal ar ward Morris yn ddiogel ac yn effeithiol ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo. Roedd y ward yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio. Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y ddogfennaeth bob amser yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir. Gwelsom hefyd nad oedd y siartiau cydbwysedd hylifau na'r ddogfennaeth gofal cathetr yn cael eu cwblhau'n gyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar reoli risgiau
- Rhai agweddau ar y dogfennau gofal
- Ni chaiff asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu dogfennu bob amser
- Ystyried defnyddio hambyrddau coch i nodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta ac yfed a darparu cyfarpar arbenigol, megis platiau a chyllyll a ffyrc, i hyrwyddo a chynnal annibyniaeth y cleifion
- Trwsio neu newid y cadeiriau sydd wedi'u difrodi yn y coridor y tu allan i fynedfa'r ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Rheoli risg
- Gwaith amlddisgyblaethol
- Darparu gweithgareddau
- Gweithiwr cymorth dementia
- Caffi dementia
- Rheoli meddyginiaeth
- Atal a rheoli heintiau.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward ac roedd y staff, yn gyffredinol, yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith ar y cyfan, a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar hyfforddiant staff gan gynnwys hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Newid i roi system rheoli cofnodion electronig ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cefnogaeth a goruchwyliaeth dda gan reolwr y ward
- Prosesau archwilio ac adrodd da.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gadarnhaol am y gofal a ddarperir. Fodd bynnag, dywedodd dau glaf wrthym nad oeddent bob amser yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal, ac nad oedd gofal yn cael ei ddarparu mewn modd sensitif ac amserol bob amser. Dywedodd un claf wrthym nad oedd bob amser yn cael ei drin ag urddas a pharch. Nodir y materion hyn isod fel meysydd i'w gwella.

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ward, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Roedd y gweithwyr cymorth gofal dementia yn annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol er mwyn eu cadw'n brysur.

Roedd y cleifion yn gallu defnyddio caffi dementia dymunol a oedd wedi cael ei gynllunio'n dda. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i aelod o'r staff fod yn bresennol gyda'r cleifion a oedd yn dymuno defnyddio'r cyfleuster oherwydd lleoliad y caffi. Heblaw am y caffi, nid oedd unrhyw le arall ar y ward, megis lolfa neu ystafell dawel er mwyn i'r cleifion a'u perthnasau ei defnyddio'n annibynnol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu lolfa neu ystafell dawel ar y ward er mwyn i'r cleifion a'u perthnasau ei defnyddio.

### **Gofal urddasol a pharchus**

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm o staff ac roedd y cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth tuag at y staff. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd i holiadur AGIC wrthym nad oedd hyn yn digwydd bob amser.

### **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.**

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn lân a'u bod yn eu hannog a'u helpu i newid o'u dillad nos i ddillad bob dydd er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y ffordd roedd y staff yn cynnal eu preifatrwydd a gwelsom ddrysau'r ystafelloedd gwely a lleni yn cael eu cau o amgylch y cleifion wrth i ofal personol gael ei ddarparu.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwelsom fod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn trafodaeth â'r cleifion ar y cyfan ac mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau unigol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod nhw a'u perthnasau yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal ac roedd y ddogfen 'Dyma fi' yn helpu'r staff i sicrhau bod anghenion unigol a dewisiadau'r cleifion yn cael eu nodi. Fodd bynnag, dywedodd dau o ymatebwyr holiadur AGIC wrthym nad oedd hyn yn digwydd bob amser ac nad oedd y staff bob amser yn gwrando arnynt ac yn eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal.

### **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gwrando ar y cleifion a'u cynrychiolwyr dynodedig a'u bod yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal.**

Roedd ansawdd y ddogfennaeth gofal yn amrywio. Nid oedd rhai o'r cynlluniau gofal a welsom bob amser yn adlewyrchu lefel ac ansawdd y gofal a ddarperir. At hynny, nid oedd y siartiau cydbwysedd hylifau na'r cofnodion gofal cathetr yn cael eu cwblhau'n gyson.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn gyson ac yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir a bod dogfennaeth ategol, megis siartiau cymeriant dietegol a hylif a chofnodion gofal cathetr, yn cael eu cynnal yn gywir.

Gwelsom fod yr asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu ac iechyd y croen yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a bod atgyfeiriadau at y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe yn cael eu gwneud lle y bo angen.

Roedd dwy gawod ar y ward i'r cleifion eu defnyddio ond nid oedd bath yno.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth cyfleusterau ystafell ymolchi ar y ward er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau presennol yn ddigonol a bod gan y cleifion ddewis rhwng cael cawod neu fath.

Roedd trafodaethau amlddisgyblaethol da yn cael eu cynnal yn ystod rownd bwrdd ynghylch anghenion y cleifion. Roedd y taflenni trosglwyddo wedi'u hargraffu a oedd yn cael eu defnyddio gan y staff yn cael eu diweddarau'n ddyddiol ac felly roeddent yn adlewyrchu newidiadau yng nghyflwr y cleifion a'r newidiadau i'w anghenion gofal.

Gwelsom fod dymuniadau'r cleifion mewn perthynas â dadebru pe byddent yn llewygu yn cael eu trafod â nhw a chynrychiolwyr penodol o'r teulu a bod dogfennaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) yn cael ei chwblhau yn ôl yr angen.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt. Gwelwyd bod y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy ddulliau arsylwi cyffredinol. Roedd hyn yn eu galluogi i roi sylw i'r cleifion mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, dywedodd dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oedd hyn yn digwydd bob amser.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymateb i gleifion mewn ffordd amserol.**

Roedd prosesau cynllunio trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty amlddisgyblaethol da ar waith. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i rai o'r cleifion aros ar y ward am gyfnod hwy nag roedd angen oherwydd oedi o ran asesiadau'r gweithwyr cymdeithasol neu argaeledd pecynnau gofal cymunedol addas.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Dim ond nifer bach o'r staff oedd yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu nad oedd y cleifion a'u perthnasau Cymraeg eu hiaith yn gallu sgwrsio yn eu mamiaith bob amser.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y ward ymhellach drwy annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.**

### Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom y staff yn rhyngweithio'n garedig a pharchus â'r cleifion a chadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwrando, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i'r cleifion a'u teuluoedd allu cwrdd yn breifat ac roeddent yn barod i hwyluso hyn drwy ddefnyddio ystafelloedd nad oeddent yn cael eu defnyddio ar y pryd neu'r cafffi dementia.

Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rhoi'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith yn amrywiol gyda rhai o'r cleifion yn cael eu goruchwyllo'n agos a chyfyngiadau ar eu symudiadau oherwydd bod drysau'r ward ar glo.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ac arweiniad mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a bod y trefniadau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn gyson mewn perthynas â'r cleifion hynny y cyfyngir ar eu symudiadau oherwydd eu bod o dan oruchwyliaeth agos neu oherwydd bod drysau'r ward ar glo.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, gwelsom fod potiau o bowdr tewychu yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yng nghegin y ward lle'r oedd drws yr ystafell honno heb ei chloi. Roedd rhai o'r potiau wedi'u hagor, ond nid oedd dyddiad agor wedi'i gofnodi arnynt. Tynnwyd sylw rheolwr y ward at y mater hwn, a chymerodd gamau ar unwaith i symud y tewychydd. Cyfeirir at hyn ymhellach yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

### Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ da iawn ar waith. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoddi diheintio dwylo wedi'u gosod mewn manau strategol o amgylch y ward.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Rydym yn awgrymu y dylid arddangos canlyniadau archwiliadau o'r fath i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

Gwelsom fod gorchuddion y cadeiriau yn y coridor y tu allan i'r ward wedi cael eu difrodi a oedd yn ei gwneud yn anodd eu glanhau ac yn cynyddu'r risg o groesheintio.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio neu newid y cadeiriau sydd wedi'u difrodi yn y coridor y tu allan i dderbynfa'r ward.**

### **Diogelu plant ac oedolion**

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol ar y ward ar adeg yr arolygiad.

### **Rheoli gwaed**

Roedd polisi trallwysiad gwaed ar waith, a dywedwyd wrthym fod y staff sy'n ymwneud â thrallwysio gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed yn cael hyfforddiant ac yn ymgymryd ag asesiadau cymhwysedd rheolaidd.

Dywedwyd wrthym nad yw'r broses trallwysiad gwaed yn cael ei chynnal yn aml iawn ar y ward. Fodd bynnag, roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch y broses i'w dilyn.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar y ward, a dengys y cofnodion bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod yr adran cynnal a chadw yn ymatebol iawn pan roddir gwybod iddi am gyfarpar nad yw'n gweithio, megis pypmïau trwytho mewnwythiennol a chlychau galw. Fodd bynnag, nid yw'r adran yn ymateb cyn gyflymed i faterion megis paent yn plicio neu deils coll ar y waliau a gall hyn gael effaith negyddol ar sgôr atal a rheoli heintiau y ward.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod asesiadau poen yn cael eu cynnal ac roedd y nyrsys yn gofyn i'r cleifion os oeddent angen unrhyw feddyginiaethau lleddfu poen wrth roi meddyginiaeth.

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol.

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn cael ei hadlewyrchu yn y broses cynllunio gofal a'r asesiad ac roedd troli sepsis dynodedig ar gael ar y ward. Roedd cynnwys y troli hwn yn cael ei wirio'n ddyddiol.

### **Maeth a hydradu**

Roedd y bwyd a'r ddiod a oedd yn cael eu darparu yn dda, ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb ruthro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol. Fodd bynnag, nid oedd hambyrddau coch yn cael eu defnyddio i nodi'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta ac yfed ac ychydig o dystiolaeth oedd i ddangos bod cyfarpar arbenigol, megis platiau a chyllyll a ffyrc, yn cael eu defnyddio i hyrwyddo a chynnal annibynniaeth y cleifion.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio hambyrddau coch i nodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta ac yfed a darparu cyfarpar arbenigol, megis platiau a chyllyll a ffyrc, i hyrwyddo a chynnal annibynniaeth y cleifion.**

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwygo yn dda.

## **Cofnodion y cleifion**

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion a welsom yn dda ar y cyfan ac yn eithaf hawdd eu defnyddio.

Roedd y tîm gofal iechyd amlldisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar ffurf papur ac yn electronig. Gwnaethom argymhell y dylai cofnodion pob claf gael eu cadw'n electronig.

**Dylai'r bwrdd iechyd newid i system rheoli cofnodion cleifion cwbl electronig.**

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Gwelsom aelodau o'r staff yn ceisio darparu gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am leoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol.



# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Staff

Roedd ymateb y staff i'r holiadur yn gadarnhaol am y rhan fwyaf o'r meysydd sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ar y cyfan.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad petai angen triniaeth arnynt, neu ar ffrind neu deulu.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu gwaith a bod yr uwch-reolwyr yn weladwy ac yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Nid oedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cyfleoedd yn y gweithle a oedd ar gael iddynt yn deg nac yn gyfartal ac roeddent o'r farn nad oedd y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Gwaith tîm da ac mae'r staff yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau i ofalu am ein cleifion a'n teuluoedd. Mae'r ystafelloedd te wedi chwarae rhan enfawr yn hyn hefyd. Mae'r buddiannau'n amhrisiadwy.”*

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r ward.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Roedd y staff ar y ward yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth. Dengys y cofnodion gyfraddau cwblhau hyfforddiant da.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a oedd yn dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn monitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel fferyllwyr, ffisiotherapyddion a deietegwyr.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod potiau o bowdr tewychu yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yng nghegin y ward lle'r oedd drws yr ystafell honno heb ei chloi. Roedd rhai o'r potiau wedi'u hagor, ond nid oedd dyddiad agor wedi'i gofnodi arnynt.	Roedd hyn yn peri risg o niwed i gleifion pe byddent yn cael eu llyncu.	Tynnwyd sylw rheolwr y ward at y mater hwn.	Cymerwyd camau ar unwaith i symud y tewychydd i'w storio'n ddiogel.

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Ward Morris, Ysbyty Maelor Wrecsam

**Dyddiad yr arolygiad:** 12 a 13 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Morris, Ysbyty Maelor Wreccsam

Dyddiad yr arolygiad: 12 a 13 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Heblaw am y cafffi dementia (Ystafelloedd Te Ward Morris / Ardal gweithgareddau), nid oedd unrhyw le arall ar y ward, megis lolfa neu ystafell dawel er mwyn i'r cleifion a'u perthnasau ei defnyddio'n annibynnol heb oruchwyliaeth y staff.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu lolfa neu ystafell dawel ar y ward er mwyn i'r cleifion a'u perthnasau ei defnyddio.	Adolygu'r lle sydd ar gael ar Ward Morris er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer darparu ardal arall a fydd yn ychwanegol at Ystafelloedd Te Ward Morris / yr Ardal gweithgareddau.	Pennaeth Nyrsio	31/12/2023
Dywedodd un claf wrthym nad oeddent bob amser yn cael ei drin ag urddas a pharch.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.	Archwiliadau adolygu cymheiriaid ac archwiliadau'r Metron i gael eu cwblhau'n fisol (ar waith).  Caiff sesiynau 'Talk to Us' eu cynnal gan Uwch-dîm y Gyfarwyddiaeth er mwyn	Pennaeth Nyrsio  Pennaeth Nyrsio	31/12/2023

		<p>siarad â'r cleifion ar y ward yn uniongyrchol.</p> <p>Adolygu themâu a thueddiadau adborth cleifion drwy Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr y Dwyrain bob chwarter.</p> <p>Goruchwylio unrhyw gynlluniau dysgu cysylltiedig sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i ddadansoddi tueddiadau.</p>		
<p>Gwelsom fod ansawdd y ddogfennaeth gofal yn amrywio. Nid oedd rhai o'r cynlluniau gofal a welsom bob amser yn adlewyrchu lefel ac ansawdd y gofal a ddarperir yn gywir. At hynny, nid oedd y siartiau cydbwysedd hylifau na'r cofnodion gofal cathetr yn cael eu cwblhau'n gyson.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn gyson ac yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir a bod dogfennaeth ategol, megis siartiau cymeriant dietegol a hylif a chofnodion gofal cathetr, yn cael eu cynnal yn gywir.</p>	<p>Archwiliadau adolygu cymheiriaid ac archwiliadau'r Metron i gael eu cwblhau'n fisol (ar waith) mewn perthynas ag ansawdd y ddogfennaeth a'r gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn.</p> <p>Rhoi rhaglen Archwilio Cwmpïadau Manylach ar waith er mwyn archwilio ansawdd yr asesiad i adlewyrchu'r claf (adolygu hyd at naw asesiad y dydd).</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31/03/2024</p>



		<p>Adolygu'r archwiliadau cwympiadau a chanlyniadau asesiadau adolygu cymheiriaid ac asesiadau'r Metron drwy'r gylchred adolygu'r ward gyda'r Pennaeth Nyrsio.</p> <p>Metron y Cleifion Difrifol Wael i barhau â'r rhaglen archwilio a hyfforddi mewn perthynas â Chydbwysedd Hylifau</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio</p>	
<p>Roedd dwy gawod ar y ward i'r cleifion eu defnyddio ond nid oedd bath yno. Mae hyn yn golygu nad oedd gan y cleifion ddewis digonol.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth cyfleusterau ystafell ymolchi ar y ward er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau presennol yn ddigonol a bod gan y cleifion ddewis rhwng cael cawod neu fath.</p>	<p>Adolygu cyfleusterau ystafell ymolchi a'r lle sydd ar gael ar Ward Morris (gan gynnwys y costau) er mwyn ystyried y dewis sydd ar gael i'r cleifion.</p>	<p>Uwch-swyddog Ystadau</p>	<p>30/11/2023</p>
<p>Dywedodd dau glaf wrthym nad oedd y staff bob amser yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cleifion aros am gymorth gan y staff a gallai hyn beryglu eu hurddas ac achosi pryder a niwed iddynt.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymateb i gleifion mewn ffordd amserol.</p>	<p>Bydd y broses o fonitro amseroedd ymateb yn parhau drwy archwiliadau'r Metron ac archwiliadau adolygu cymheiriaid.</p> <p>Caiff ei adolygu wedi 3 mis.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31/12/2023</p>

<p>Gwelsom fod yn rhaid i rai o'r cleifion aros ar y ward am gyfnod hwy nag yr oedd angen oherwydd oedi o ran asesiadau'r gweithwyr cymdeithasol neu argaeledd pecynnau gofal cymunedol addas. Mae hyn yn golygu nad oedd y cleifion yn cael gofal yn yr amgylchedd mwyaf priodol.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.</p>	<p>Cynnal adolygiadau rheolaidd o gleifion y mae eu teithiau wedi cael eu hoedi.</p> <p>Bydd yr achosion o oedi ymysg cleifion wedi'u hoptimeiddio'n glinigol yn cael ei adolygu yng nghyfarfodydd uwchgyfeirio partneriaeth wythnosol y Gymuned Iechyd Integredig.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain Gofal Iechyd Annibynnol y Dwyrain</p>	<p>31/03/2024</p>
<p>Dim ond nifer bach o'r staff ar y ward oedd yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cleifion a'u perthnasau Cymraeg yn gallu sgwrsio yn eu mamiaith bob amser.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y ward ymhellach drwy annog y staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg.</p>	<p>Pob aelod o'r staff i gwblhau hyfforddiant e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.</p> <p>Cynnig hyfforddiant Cymraeg i bob aelod o'r staff ar y ward.</p>	<p>Metron</p>	<p>31/12/2023</p>
<p>Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rhoi'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith yn amrywiol gyda rhai o'r cleifion yn cael eu goruchwyllo'n agos a chyfyngiadau ar eu symudiadau oherwydd bod drysau'r ward ar glo.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ac arweiniad mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a bod y trefniadau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn gyson mewn perthynas â'r cleifion hynny y cyfyngir ar eu symudiadau oherwydd</p>	<p>Pob aelod o'r staff i gwblhau sesiynau ymwybyddiaeth o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a ddarperir gan y Tîm Diogelu neu ar y system e-ddysgu.</p> <p>Cynnal archwiliadau o'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn fisol</p>	<p>Arweinydd Diogelu'r Dwyrain</p>	<p>31/03/2024</p> <p>30/04/2024</p>

	eu bod o dan oruchwyliaeth agos neu oherwydd bod drysau'r ward ar glo.	am gyfnod o chwe mis er mwyn rhoi sicrwydd bod y broses o weithredu'r trefniadau yn gadarn. Adolygu canlyniadau'r archwiliadau ac uwchgyfeirio'r eithriadau at Fforwm Diogelu'r Dwyrain.		
Roedd gorchuddion y cadeiriau yn y coridor y tu allan i'r ward wedi cael eu difrodi a oedd yn ei gwneud yn anodd eu glanhau ac yn cynyddu'r risg o groesheintio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio neu newid y cadeiriau sydd wedi'u difrodi yn y coridor y tu allan i fynedfa'r ward.	Tîm Ystadau i drwsio neu newid y cadeiriau sydd wedi'u difrodi yn y coridor y tu allan i fynedfa'r ward.	Uwch-swyddog Ystadau	31/12/2023
Nid oedd hambyrddau coch yn cael eu defnyddio i nodi'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth i fwyta ac yfed arnynt ac ychydig o dystiolaeth oedd i ddangos bod cyfarpar arbenigol, megis platiau a chyllyll a ffyrc, yn cael eu defnyddio i hyrwyddo a chynnal annibynniaeth y cleifion.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio hambyrddau coch i nodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth i fwyta ac yfed a darparu cyfarpar arbenigol, megis platiau a chyllyll a ffyrc, i hyrwyddo a chynnal annibynniaeth y cleifion.	Grŵp Maeth a Hydradu y Dwyrain i ystyried prosiect Gwella Ansawdd ar gyfer defnyddio cyfarpar arbenigol a hambyrddau coch gan ddefnyddio Ward Morris fel ardal dreialu.  Yr adran arlwygo i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o gyfarpar arbenigol i gynnal a hyrwyddo annibynniaeth y cleifion	Pennaeth Nyrsio  Pennaeth Gwasanaethau Arlwygo	31/12/2023

Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar ffurf papur ac yn electronig. Gwnaethom argymhell y dylai cofnodion pob claf gael eu cadw'n electronig.	Dylai'r bwrdd iechyd newid i system rheoli cofnodion cleifion cwbl electronig.	Y tîm gwybodeg i adolygu'r ddogfennaeth papur a darparu amserlenni ar gyfer system cadw cofnodion gwbl electronig.	JB neu Uwch-swyddog Gwybodeg	31/01/2024
Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.	Pob aelod o staff Ward Morris i gael hyfforddiant/sesiynau ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'u cefnogi gan y Nyrs Datblygu Ymarfer.  Adnewyddu sesiynau sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd i gynnwys goruchwyliaeth o'r Ddyletswydd Gonestrwydd.	Pennaeth Nyrsio  Nyrs Datblygu Ymarfer	31/01/2024  31/01/2024

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.



## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Michelle Greene

**Teitl swydd:** Cyfarwyddwr CII y Dwyrain

**Dyddiad:** 20/11/2023

